# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 41
11/01/21

## Temtiad Iesu

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes, Elin Bryn, Connor Roberts
a Gwyn Rhydderch


An English version is also available

**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org**



# Stori

## Fersiwn Beibl.net



Dyma'r Ysbryd yn arwain Iesu allan i'r anialwch i gael ei demtio gan y diafol. Ar ôl bwyta dim byd am bedwar deg diwrnod, roedd yn llwgu. Dyna pryd y daeth y diafol i'w demtio. “Os mai Mab Duw wyt ti, gwna i'r cerrig yma droi'n fara,” meddai.
“Na!”, atebodd Iesu, “Mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud mai ‘Nid bwyd ydy'r unig beth mae pobl ei angen i fyw, ond popeth mae Duw yn ei ddweud.’”
Wedyn dyma'r diafol yn mynd â Iesu i'r ddinas sanctaidd (hynny ydy Jerwsalem) a gwneud iddo sefyll ar y tŵr uchaf un yn y deml. “Os mai Mab Duw wyt ti,” meddai, “neidia i lawr o'r fan yma. Mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud: ‘Bydd Duw yn gorchymyn i'w angylion dy ddal yn eu breichiau, fel na fyddi'n taro dy droed ar garreg.’”



Atebodd Iesu, “Mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud hefyd: ‘Paid rhoi'r Arglwydd dy Dduw ar brawf.’”
Yna dyma'r diafol yn mynd ag e i ben mynydd uchel iawn, a dangos holl wledydd y byd a'u cyfoeth iddo. A dwedodd y diafol wrtho, “Cei di'r cwbl gen i os gwnei di blygu i lawr i fy addoli i.”
Ond dyma Iesu'n dweud, “Dos i ffwrdd Satan! Mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud: ‘Addola'r Arglwydd dy Dduw, a'i wasanaethu e'n unig.’”
Yna dyma'r diafol yn ei adael, a daeth yr angylion ato a gofalu amdano.

*Mathew 4:1-11 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Ar ôl i Iesu gael ei fedyddio aeth allan i’r anialwch. Roedd eisiau amser i feddwl am y gwaith roedd Duw eisiau iddo wneud. Clywodd lais yn dweud “Os mai mab Duw wyt ti, tro’r cerrig yn fara i ti gael bwyd.” Atebodd Iesu, “Na, rydw i am wneud pethau yn ffordd Duw. Nid bwyd yn unig mae rhywun ei angen er mwyn byw ond mae person angen popeth mae Duw yn ei ddweud.”



Dywedodd y llais eto, “Bydd pawb yn gwrando arnat ti os wnei di neidio oddi ar tŵr uchaf y deml a bydd angylion Duw yn dy achub di.”
Atebodd Iesu, “Na, dydw i ddim angen dangos fy hun. Rydw i am wneud pethau fel mae Duw eisiau.”
Dywedodd y llais unwaith eto, “Os wnei di fy addoli i gei di fod yn frenin ar bopeth.”Ond atebodd Iesu, “ Duw ydy’r unig frenin a byddaf fi’n ei addoli.” Roedd Iesu’n barod i wneud gwaith Duw fel roedd Duw eisiau.

# Cwestiynau i’w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:
1. Pa fath o bethau wyt ti’n cael dy demtio i’w gwneud h.y. pethau ti’n gwybod na ddyliet ti eu gwneud?
2. Beth wyt ti’n ei wneud os wyt ti’n cael dy demtio i wneud rhywbeth na ddyliet ti?
3. Beth oedd Iesu’n wneud bob tro roedd y diafol yn ei demtio?
4. Pam wyt ti’n meddwl fod Iesu yn ddigon cryf i beidio â chael ei demtio bob tro?
5. Sut wyt ti’n meddwl y gall Iesu dy helpu di i ddweud ‘na’ pan fyddi di’n cael dy demtio?





# Gweddi fer

O Dduw, diolch i Ti fod Iesu yn ddigon cryf i beidio â chael ei demtio bob tro.
Diolch i Ti dy fod Ti’n gallu fy helpu i pan fydda i’n cael fy nhemtio.
Plîs helpa fi i ddewis gwneud y peth cywir pan fydda i’n cael fy nhemtio i wneud rhywbeth anghywir. Amen.

# Stori i'w lliwio

## Iesu'n cael ei demtio


www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Roedd Iesu'n berson o gig a gwaed fel chi a fi ac roedd yn rhydd i wneud yr hyn sy'n dda ac yn gywir neu'r hyn oedd yn anghywir. Roedd Iesu wastad yn gwneud yr hyn oedd yn iawn.




Wedi iddo gael ei fedyddio gan Ioan Fedyddiwr yn afon yr Iorddonen aeth Iesu i'r diffeithwch am bedwar deg diwrnod a phedwar deg nos i dreulio amser ar ei ben ei hun yn dawel er mwyn gweddïo ac ymprydio.




Wedi pedwar deg diwrnod heb fwyd roedd Iesu'n llwgu. Awgrymodd y diafol y dylai Iesu ddefnyddio pŵer Duw i droi rhai o'r cerrig yn fara.



Ond gwrthododd Iesu a dywedodd, “Mae wedi ei ysgrifennu yn yr ysgrythurau bod mwy i fywyd person na bwyta'n unig. Mae gwir nerth a boddhad yn dod o ufuddhau i Air Duw.”



Ceisiodd y diafol demtio Iesu unwaith eto. “Lluchia dy hun o le uchel oherwydd mae Duw wedi dweud y bydd yr angylion yn dy ddal di.” Unwaith eto wnaeth Iesu ddim gwneud yr hyn roedd y diafol yn dweud wrtho ei wneud.



Dywedodd Iesu, “Mae wedi ei ysgrifennu, dwyt ti ddim i brofi yr Arglwydd dy Dduw.” Roedd y diafol yn gwybod beth oedd gair Duw yn ei ddweud. Dewisodd Iesu wneud yr hyn oedd yn iawn. Does dim angen profi y Duw rwyt ti'n ymddiried ynddo.



Yna dangosodd y diafol bŵer a chyfoeth holl deyrnasoedd y byd i Iesu. “Fi sydd â phŵer y teyrnasoedd hyn ac fe wnaf ei roi i ti os wnei di blygu lawr a f'addoli i.”



“Dos oddi wrthyf fi Satan,” gorchmynnodd Iesu.”Duw ydy'r unig un y dylid ei addoli.” Fe wnaeth Iesu wrthsefyll temtasiwn a gwnaeth y dewisiadau cywir. Yna dechreuodd ddysgu a iacháu'r bobl.

# Dolenni



Fideo o'r stori
https://youtu.be/H8PWMWNsCxs




Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/tsPax6RrRzs



Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=mc-x4qKY6Wc





# Gemau



## Dianc rhag y lafa!

Yn yr hanes am Iesu'n cael ei demtio wnaeth Iesu ddim rhoi i mewn, fe ddwedodd 'na' yn syth. Pan mae rhywbeth yn ddrwg neu'n beryglus rydan ni eisiau symud oddi wrtho'n syth!



**Sut i chwarae**
Mae pawb sy'n chwarae'n cerdded o gwmpas yr ystafell, neu'r ardd.
Ar unrhyw amser mae'r llawr yn gallu troi'n lafa poeth pan fydd rhywun yn dweud, "Mae'r llawr yn lafa!" Rhaid i bawb symud oddi ar y llawr fel nad ydych yn ei gyffwrdd o gwbl!
Mae'r olaf i fod yn ddiogel allan am un tro.





## Gemau munud yn defnyddio fferins.

**Byddi angen**
- Fferins/ losin/ Da da  e.e. Smarties, siocled siâp arian
- 2 Gwpan
- Llwy

**Sut i chwarae**
Rhybudd. Paid â bwyta'r fferins cyn diwedd pob gêm!
- Caria'r fferins o un gwpan i'r llall fesul un gyda llwy.
- Gwna dŵr cyn uched â phosibl allan o fferins.
- Gosoda'r fferins i sefyll mewn cylch.




Pa mor llwyddiannus oedd y chwaraewyr?
Pwy lwyddodd i beidio â bwyta'r fferins cyn diwedd y gêm?

# Posau

Ar ôl i Iesu gael ei fedyddio cafodd ei demtio.

Dilyna'r ddrysfa i ddod o hyd i'w dri ymateb.






## Adnod mewn cod

Defnyddia'r cod i ddod o hyd i eriau'r adnod - Mathew 6:13

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | B | C | CH | D | DD | E | F | G | I | L | N | O | P | R | RH | S | TH | U | W | Y |
| W | Y | A | B | C | CH | D | DD | E | F | G | I | L | N | O | P | R | RH | S | TH | U |

AWCTH IF PWE RUORHFL NWI DDUCHTHI IF'I AWDG DFI NOLDDF,
C A

WA WBSY IF L WDDWDG U COTHE.



## Cwestiynau

1. Am sawl diwrnod fuodd Iesu yn yr anialwch? 12 25 40

2. A fwytaodd ef unrhyw beth?  

3. Sawl gwaith y cafodd Iesu ei demtio? 1 3 4

4. Beth ddefnyddiodd Iesu i'w helpu i wrthsefyll temtasiwn?

# Sialensau

## Creu'r stori

Beth am fynd ati i ailddweud y stori am Iesu’n cael ei demtio gan ddefnyddio clai i wneud y cymeriadau a’r pethau yn yr hanes a thywod.





## Wythnos dda!

Meddylia am rywbeth fyddai’n gwneud lles a gwna hyn am wythnos.

Dyma rai syniadau: bwyta mwy o ffrwythau a llysiau, darllen mwy, gwneud dy wely, dweud rhywbeth caredig wrth bawb yn y tŷ.

## Temtasiynau

Rydym ni gyd yn cael ein temtio i wneud y pethau anghywir. Os nad ydym yn siŵr os ydy rhywbeth yn dda neu’n ddrwg mae’n beth da i  feddwl  beth fyddai'n plesio Duw.

Pa rai o'r pethau isod wyt ti'n meddwl sy'n plesio Duw? Fedri di eu gwneud?

Dweud geiriau anghwrtais






Tacluso dy lofft



Bwlio





Twyllo

Ddim yn rhannu





Gwylio'r teledu trwy'r dydd



Helpu mam

Dweud celwydd



**Rydym ni angen help - a gallwn ofyn i Dduw ein helpu ni.**

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I | L | O | DD | A | G | I | N | U | I | W | CH |
| M | O | J | E | R | W | S | A | L | E | M | L |
| Y | D | U | W | P | A | R | G | L | W | Y | DD |
| N | LL | A | L | M | S | NG | Y | G | I | T | CH |
| Y | W | Y | E | W | A | D | Y | W | B | E | W |
| DD | G | I | CH | R | N | I | S | L | O | M | L |
| U | U | T | U | N | A | C | B | E | I | L | A |
| D | U | E | W | D | E | DD | R | A | D | O | I |
| N | W | M | U | R | TH | B | Y | D | R | F | N |
| E | I | T | R | E | U | S | D | U | M | A | A |
| NG | A | I | B | A | M | P | R | O | F | I | B |
| A | G | O | F | A | L | U | S | E | I | D | B |

ADDOLI
ANIALWCH
ANGEN
ANGYLION
ARGLWYDD
BARA
BWYD
BYD
CERRIG
DIAFOL
DUW
DWEUD
GOFALU
GWASANAETHU
IESU
JERWSALEM
LLWGU
MAB
MYNYDD
PLYGU
PROFI
TEML
TEMTIO
UCHEL
UNIG
YSBRYD

# Gweddi Greadigol

## Cyfaill gweddi



**Byddi angen:**

- Carreg
- Llygaid sy'n symud
- Glud (pva)
- Gwlân

**Beth i'w wneud:**

- Golcha'r garreg yn lân gyda dŵr a sebon golchi llestri.
- Ar ôl i'r garreg sychu'n iawn, gluda'r llygaid arni.
- Gluda'r gwlân ar y garreg fel gwallt.
- Rho dy gyfaill gweddi (y garreg) yn rhywle hawdd i'w weld i dy atgoffa i siarad gyda Duw. Gallet ti ddiolch i Dduw am bobl, gofyn i Dduw am help gydag unrhyw beth neu ddweud 'sori' am bethau na ddylet fod wedi eu gwneud.



## Pethau anodd

Rho rywfaint o gerrig mewn bocs o dywod.
Coda un o'r cerrig. Mae'n galed. Meddylia am rai o'r pethau rwyt ti'n eu ffendio'n galed ar hyn o bryd. Gofynna i Dduw dy helpu di i ddelio gyda'r pethau caled ac anodd ac iddo dy gynnal di yn dy anawsterau. Diolch Dduw am fod gyda fi wrth i mi fynd drwy brofiadau caled ac anodd.

# Fflapjacs

# Rysáit



**Cynhwysion:**
- 350g o fenyn neu fargarîn
- 2 lwy bwdin hael o syrup euraidd
- 175g o siwgr Muscovado neu siwgr brown meddal
- 1 lwy de o rinflas fanila
- 75g o flawd plaen
- 375g o geirch

**Dull:**
- Cynhesa'r popty i dymheredd o 180 gradd canradd.
- Ira a leinia dun pobi 'swiss roll' â phapur gwrthsaim.
- Rho'r menyn, y syrup, y siwgr a'r rhinflas fanila mewn sosban go fawr.
- Cynhesa'r cynhwysion ar wres isel hyd nes y bydd y menyn a'r siwgr wedi toddi.
- Pan fydd y gymysgedd yn llyfn, tynna'r sosban oddi ar y gwres ac ychwanega'r blawd a'r ceirch a'u cymysgu.
- Ar y pwynt hwn fe allet ti ychwanegu cynhwysion fel a ganlyn; rhesins, llygaeron, tafelli o fanana sych, neu dameidiau mân o siocled ('chocolate chips.')
- Efallai y byddet ti'n hoffi ychwanegu banana wedi ei stwnsio ynghyd â hadau pwmpen neu sesame i'r gymysgedd.
- Arllwysa'r gymysgedd i mewn i'r tun pobi sydd wedi ei leinio.Opsiwn arall yr adeg hyn o'r flwyddyn ydy defnyddio tun llai, sgwâr. Yna taena hanner y gymysgedd yn y tun ac yna ei orchuddio â haenen o friwfwyd melys ( Christmas mincemeat). Yna ychwanega weddill y gymysgedd a'i daenu ar ben y briwfwyd melys.
- Rho'r gymysgedd fflapjac yn y popty i goginio am 20 – 25 munud.
- Wedi i ti dynnu'r tun o'r popty gad iddo oeri ychydig ac yna torra'r fflapjac yn sgwariau llai.
- Tynna nhw o'r tun a'u rhoi ar rac weiren i oeri. Bydd trosglwyddo'r fflapjacs o'r tun i'r rac weiren yn haws os y byddi wedi gadael y papur gwrthsaim yn gorgyffwrdd. Gelli ddefnyddio'r papur gwrthsaim i gario'r fflapjacs i'r rac.



# Canu



Paid â gadael i mi syrthio
pan ddaw temtasiwn.
Helpa fi i gerdded y llwybr iawn
A chadwa fi rhag popeth drwg.

1. Bob un dydd dwi'n dod ar draws
pethau da dylwn eu gwneud
Ond mae llais tu fewn yn sibrwd, 'Paid!'
Dyma pan dwi'n dweud: (O Arglwydd)

2. O'm cwmpas mae 'na bethau drwg
Sydd ddim y ffordd iawn i fyw.
Pan dwi wir eisiau'u gwneud
Helpa fi fy Nuw. (O Arglwydd)

*Hawlfraint 2021 Andy Hughes*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/tsPax6RrRzs

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - ahughes@saintygymuned.org